

Siarad am Ddyfodol Cymru

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru



Fersiwn gymunedol

Helo!

Ar hyd a lled Cymru, mae pobl yn ymuno â sgwrs am ddyfodol Cymru, oherwydd mae sut mae ein cenedl yn cael ei llywodraethu yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n bywydau.

i Ystyr llywodraethu yw'r modd i reoli a chael y pŵer i wneud penderfyniadau.

Mae Cymru'n wlad ddatganoledig

Mae datganoli yn golygu, yn lle bod yr holl bŵer gyda Llywodraeth y DU, mae rhai pwerau wedi cael eu trosglwyddo i wledydd Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru.

Mae'n golygu bod rhai deddfau a phenderfyniadau yn cael eu gwneud yng Nghymru, gan wleidyddion sydd wedi cael eu hethol gan bobl Cymru.



Senedd Cymru

Mae gan Gymru ei Senedd ei hun (Senedd Cymru) a Llywodraeth Cymru, gyda Phrif Weinidog yn cael ei ddewis gan yr aelodau etholedig. Mae'r Senedd yn deddfu dros Gymru ac yn dal Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau, yn cynnig cyfreithiau newydd ac yn sicrhau eu bod nhw'n cael eu gweithredu. Mae'n penderfynu'r gyllideb ar gyfer sefydliadau fel y GIG ac awdurdodau lleol.



Mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y materion hyn yng Nghymru:

- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Addysg a hyfforddiant
- Llywodraeth Leol (Cyngorau)
- Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota
- Trafnidiaeth
- Rhai trethi
- Chwaraeon a'r celfyddydau.



Mae rhai pethau'n cael eu rheoli gan Senedd a Llywodraeth y DU:

- Cyfiawnder a phlisma
- Amddiffyn
- Materion tramor
- Mewnfudo
- Polisi masnach
- Y Cyfansoddiad
- Darlledu.

Dyfodol Cymru

Yn 2021, sefydlodd Llywodraeth Cymru **Gomisiwn Annibynnol**. Mae'r Comisiwn yn adolygu cryfderau a gwendidau datganoli, yn darganfod beth mae pobl yn ei feddwl, ac yn archwilio opsiynau allai wella dyfodol Cymru.

i Comisiwn yw grŵp o bobl mae sefydliad neu lywodraeth yn ymddiried ynddo i ymchwilio i rywbeth.



Mae'r adroddiad cryno hwn yn dweud wrthyti beth rydyn ni wedi'i ddarganfod hyd yma, a'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud nesaf.

Amdanom ni

Mae'r Comisiwn Annibynnol hwn yn cael ei arwain gan yr Athro Laura McAllister a Dr Rowan Williams. Mae hefyd yn cynnwys naw comisiynydd o gefndiroedd gwahanol, sydd i gyd â safbwyntiau gwahanol. Rydym ni i gyd wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd ac i gynnal ymchwiliad teg.

Ein nod

Rydym eisiau gwneud y canlynol:

- darganfod barn pobl am y ffordd mae Cymru'n cael ei llywodraethu
- deall strwythurau'r llywodraeth ar draws gwledydd y DU a sut maen nhw'n gweithio
- gweld sut mae datganoli yn gweithio yng Nghymru
- canfod ffyrdd o gryfhau democratiaeth yng Nghymru
- archwilio'r opsiynau ar gyfer newid a fydd yn gwella bywydau pobl.

Amserlen

Yn 2021 — Gwaith y Comisiwn Annibynnol yn dechrau.

Mawrth 2022 — Fe wnaethom ddechrau casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phobl ledled Cymru.

Nawr Rhagfyr 2022 — Dyma ein hadroddiad cyntaf yn esbonio'r hyn rydyn ni wedi'i ddarganfod a'r hyn mae pobl yn ei ddweud hyd yn hyn.

Wrth symud ymlaen — Nid yw'r ymholiad wedi gorffen felly byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth a siarad â phobl ar draws Cymru.

Diwedd 2023 — Byddwn yn ysgrifennu adroddiad terfynol ac yn gwneud argymhellion.

Ein gwerthoedd

Mae ein holl waith yn seiliedig ar:



Asiantaeth: mae gan bawb y pŵer i ddylanwadu ar bolisiâu a phenderfyniadau mewn cymaint o ffyrdd â phosib.



Cydraddoldeb a Chynhwysiant: mae pawb yn cael eu trin yn deg ac yn cael yr un cyfleoedd i gymryd rhan.



Atebolrwydd: gall pawb ddal y llywodraeth i gyfrif a gweld sut mae pethau'n gweithio.



Sybsidiaredd: mae penderfyniadau yn cael eu gwneud mor agos at y bobl sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniadau â phosib.

Y Comisiynwyr



Cynnwys pobl

Rydyn ni eisiau rhoi cymaint o gyfleoedd â phosib i bobl gymryd rhan. Yn y cam cyntaf, rydyn ni eisoes wedi gwneud llawer.



Rydyn ni'n cynnal ymgynghoriad ar-lein o'r enw **Dweud eich Dweud: Have your Say**.

★ Hyd yn hyn, mae dros **2000** o ymatebion.



Rydym ni wedi sefydlu arolygon ar-lein ac arolygon barn.



Rydym ni wedi ymuno â gwahanol ddigwyddiadau ar draws Cymru.



Rydym ni wedi cynnal **15** sesiwn i gasglu **tystiolaeth**.



Rydym ni wedi cynnal **24** o gyfarfodydd a gweithdai gyda gwahanol grwpiau a fforymau.



Rydym ni wedi cynnal **5** gweithdy gyda gweithwyr proffesiynol ac arbenigwyr.



Rydym ni wedi siarad â grwpiau, aelodau o'r **gymdeithas ddinesig ac academyddion**.



Rydym ni wedi ffurfio partneriaeth gyda **11 o grwpiau** cymunedol ledled Cymru.

Panel Arbenigol

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd sefydlu Panel Arbenigol. Mae hwn yn grŵp o bobl proffesiynol sy'n arbenigwyr mewn llywodraeth, cyllid a'r gyfraith. Maen nhw'n rhoi cefnogaeth a chynghor i ni, ac yn edrych ar beth rydyn ni'n ei wneud i sicrhau nad ydyn ni'n colli unrhyw beth pwysig.

Beth sydd nesaf?



Byddwn ni'n sefydlu **Panel Dinasyddion** o bobl o bob cwr o Gymru, o wahanol gefndiroedd ac sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o farn.



Beth mae pobl yn ei ddweud am ddatganoli

Dim ond y cam cyntaf o siarad â phobl a chasglu tystiolaeth yw hyn. Ond mae'n amlwg yn barod bod **datganoli o dan bwysau** oherwydd:

⚠️ Nid yw Llywodraeth y DU bob amser yn parchu datganoli ac mae wedi gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar gyfrifoldebau'r Senedd heb ei chytundeb.

⚠️ Llywodraeth y DU sy'n penderfynu pryd a sut maen nhw'n ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud hi'n anodd creu ymddiriedaeth a pherthynas dda.

⚠️ Nid yw Llywodraeth y DU yn siarad cymaint â Llywodraeth Cymru ag y dylai pan mae'n dod i ddatganoli.

⚠️ Mae rheolau Trysorlys y DU yn ei gwneud hi'n anodd i Lywodraeth Cymru reoli ei chyllideb yn effeithiol.

⚠️ Mae gan Lywodraeth y DU y pŵer o hyd mewn sawl maes sy'n effeithio ar Gymru ac nid yw'n fodlon ystyried cynigion ar gyfer newid, hyd yn oed pan fydd y rhain yn cael eu hargymhell gan arbenigwyr.

⚠️ Llywodraeth y DU sy'n penderfynu'r cyllidebau ar gyfer y gwledydd datganoledig, ond mae hyn yn seiliedig ar gyllideb Lloegr, yn hytrach nag edrych ar beth sydd ei angen ar y gwledydd datganoledig.

⚠️ Nid yw pleidleisio mewn etholiadau yn rhoi digon o lais i Gymry dros benderfyniadau.

⚠️ Nid oes digon o wybodaeth am y rhesymau pam mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, na sut i ddal llywodraethau (ar bob lefel) i gyfrif am y pethau maen nhw'n eu gwneud.

⚠️ Mae dyfodol economi Cymru yn ansicr, a dydyn ni ddim yn gwybod pa wahaniaeth y byddai newid y cyfansoddiad yn ei wneud.

⚠️ Llywodraeth y DU a'r Senedd sy'n penderfynu pwerau a chyfrifoldebau'r Senedd a Llywodraeth Cymru. Hyd yn oed os ydyn ni'n gwneud argymhellion am newid, gall Llywodraeth y DU ei anwybyddu.

Hyd yn oed gyda'r pwysau hyn, mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu bod datganoli wedi gwella bywydau pobl yng Nghymru ac yn werth ei ddiogelu.

Dyma rai o'r sylwadau rydyn ni wedi eu clywed am ddatganoli:

- ⏏ Mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru'n cymryd y camau cywir dros Gymru.
- ⏏ Mae'n haws dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif na Llywodraeth y DU.
- ⏏ Mae'n helpu i warchod hunaniaeth, diwylliant, ac iaith Cymru.
- ⏏ Rydym ni angen mwy o benderfyniadau am Gymru... yng Nghymru!
- ⏏ Mae'r Senedd yn deall Cymru a'r hyn sydd ei angen ar Gymru.
- ⏏ Mae datganoli yn golygu cost ychwanegol i drethdalwyr.
- ⏏ Mae Bae Caerdydd yn teimlo mor bell â Llundain i mi.



Sicrhau bod Cymru'n barod at y dyfodol

Mae'r llywodraeth a chymdeithas yn newid yng Nghymru, fel yn rhannau eraill y DU. Gallai fod newidiadau yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon a fyddai'n effeithio arnom ni yng Nghymru.

Mae'n bwysig ein bod ni'n meddwl am yr hyn rydyn ni ei eisiau ar gyfer dyfodol Cymru. Dydyn ni ddim yn credu bod gadael i bethau aros yr un fath na chael gwared ar ddatganoli yn opsiynau da.

**O siarad â phobl, rydyn ni wedi datblygu
3 opsiwn posib ar gyfer y dyfodol.**

Opsiwn 1: Atgyfnerthu datganoli

i Byddai hyn yn sefydlu pwerau'r Senedd yn gadarn ac yn ei ehangu. Byddai'n sicrhau bod y pwerau sydd gan Gymru i wneud ei phenderfyniadau ei hun yn cael eu gwarchod.

Byddai'r opsiwn hwn yn ceisio:

- rhoi mwy o barch a sefydlogrwydd i'r Senedd a Llywodraeth Cymru
- amddiffyn Cymru rhag penderfyniadau gan Llywodraeth y DU heb ymgynghori â'r Senedd
- hybu gwell perthynas gwaith rhwng llywodraethau
- sicrhau bod mwy o benderfyniadau sy'n effeithio Cymru yn cael eu gwneud gan y Senedd a Llywodraeth Cymru.

Ni fyddai'r opsiwn hwn:

- yn cymryd llawer o adnoddau neu amser i wneud
- yn golygu newidiadau mawr y byddai'n rhaid i weddill y DU gytuno arnyn nhw.

Rhai sylwadau rydyn ni wedi eu clywed am yr opsiwn yma:

☞ Dyma'r unig ffordd y gall Cymru aros o fewn yr Undeb yn hir dymor.

☞ Dylai'r Senedd gael pŵer dros fwy o feysydd (cyfiawnder, plismona, darlledu, trethiant).

☞ Nid yw llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr sydd â phŵer dros Gymru yn deg pan mae Llafur wedi ffurfio'r blaidd fwyaf yn y Senedd ers 1999.

☞ Mae gormod o broblemau gyda'r meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli (er enghraifft, canlyniadau gwael y GIG a diffyg buddsoddi mewn seilwaith) ac mae cyfraddau tloedi yng Nghymru yn uchel.

☞ Mae angen datganoli mwy o benderfyniadau am gyllid, economi a chyllidebau i Gymru gan fod economi'r DU yn canolbwyntio'n ormodol ar Lundain a Lloegr.

☞ Mae angen gwneud penderfyniadau yn fwy lleol, gyda mwy o bŵer i lywodraeth leol, nid y Senedd.



Opsiwn 2: Strwythur ffederal

i Newid cyfansoddiad y DU fel bod grym yn cael ei rannu rhwng Senedd y DU a'r Senedd, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Byddai'r opsiwn hwn yn:

- cynnwys newidiadau i gyfansoddiad y DU gyfan
- golygu gwahaniad cyfreithiol ar bwerau rhwng Senedd y DU a'r Senedd
- golygu y byddai Senedd y DU yn colli ei goruchafiaeth dros seneddau eraill y DU
- golygu bod angen i Senedd a Llywodraeth y DU wahanu eu cyfrifoldeb dros Loegr oddi wrth eu cyfrifoldeb dros y DU
- golygu bod angen cytuno pwy fydd â chyfrifoldeb ariannol am bethau fel budd-daliadau lles a materion lles eraill.

Ni fyddai'r opsiwn hwn:

- yn gyflym neu'n hawdd i'w wneud.

Rhai sylwadau rydyn ni wedi eu clywed am yr opsiwn yma:



Gallai Prydain oroesi ffederasiwn ond nid annibyniaeth.



Byddai angen rhannu Lloegr yn ranbarthau, fel bod y ffederasiwn yn gyfartal a theg.



Gallai DU ffederal ddiogelu datganoli.



Byddai hyn yn cymryd llawer o amser ac adnoddau i'w drafod ar draws y DU.



Opsiwn 3: Annibyniaeth

i Gwneud Cymru yn wladwriaeth sofran, annibynnol o'r DU.

Byddai'r opsiwn hwn yn:

- gwneud Cymru yn wlad sofran a allai wneud cais i ymuno â'r Cenhedloedd Unedig
- golygu bod angen i drethdalwyr Cymru ariannu'r holl wasanaethau cyhoeddus a benthyca'r llywodraeth yng Nghymru
- golygu bod angen i Cymru sefydlu ffyrdd newydd o weithio gyda'r byd a gweddill y DU
- golygu bod angen cytundebau newydd ar ffiniau a masnach.

Ni fyddai'r opsiwn hwn:

- yn gyflym neu'n hawdd i'w wneud
- yn cyfateb â'r hyn mae'r rhan fwyaf o bobl ei eisiau ar hyn o bryd, yn ôl y rhan fwyaf o arolygon ac arolygon barn. Ond mae peth tystiolaeth bod y gefnogaeth am annibyniaeth yn tyfu, yn enwedig ymysg iau.

Rhai sylwadau rydyn ni wedi eu clywed am yr opsiwn yma:

🗨️ Nid yw pobl yn ymddiried yn Senedd a Llywodraeth San Steffan ac maen nhw eisiau annibyniaeth.

🗨️ Mae hunaniaeth, diwylliant, ac iaith yn resymau da dros annibyniaeth.

🗨️ Nid yw annibyniaeth yn opsiwn yn y byd modern.

🗨️ Mae pobl yn poeni beth fyddai annibyniaeth yn ei olygu i'w hunaniaeth fel 'Prydeinwyr'.



Y camau nesaf

Mae Cymru'n lle anhygoel i fyw.

Rydyn ni eisiau sicrhau bod pob penderfyniad yn gwella bywydau pobl a gwarchod dyfodol Cymru fel cenedl. Nid yw'r tri opsiwn yn statig, ac fe allai pob un fod yn fwy neu yn llai posib gan ddibynnu ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru, y gwledydd datganoledig eraill ac ar draws y DU yn y dyfodol.

Diolch am ddarllen hwn

Mae llawer i feddwl amdano ac nid yw'r sgwrs wedi gorffen. Rydyn ni eisiau gwybod beth rwyf ti'n feddwl.

Felly cer amdani — ymuna yn y sgwrs.

Dy ddyfodol di — dy Gymru di!

Cysylltu â ni:

 ComisiwnYCyfansoddiad@llyw.cymru

I ddarllen ein Hadroddiad Interim llawn:

 llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-interim

